

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro,
Nicola Taaffe @ West
Grove**

Dyddiad arolygu: 26 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd rhywfaint o oedi wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif nod AGIC yw:

- Cyfrannu at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd o ran y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Nicola Taaffe @ West Grove yn 2 West Grove, y Rhath, Caerdydd, CF24 3AN ar 26 Medi 2016

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Nicola Taaffe @ West Grove yn cyflawni'r [?] safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol â rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain, ac a yw'r diwylliant yn addas i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Nicola Taaffe @ West Grove yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Rhath, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Practis cymysg yw Nicola Taaffe @ West Grove sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat, yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG. Dim ond i blant y darperir gwasanaethau deintyddol y GIG yn y practis.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, dau hyleneidd, dau therapydd, wyth nyrs ddeintyddol, un rheolwr practis ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG, yn ogystal â gwasanaethau deintyddol preifat. Mae'r practis yn gallu cynnig gwasanaeth tawelu ymwybodol i gleifion.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Nicola Taaffe @ West Grove yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuwyd bod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn gyflawn, yn lân, ac yn daclus
- Roedd yr offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o staff y practis.

Argymhellwyd gennym y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd angen gwneud gwiriadau ychwanegol ar gyfarpar dadheintio, gan gadw cofnodion i gydymffurfio'n llawn â'r canllawiau cenedlaethol
- Roedd angen gwneud gwiriadau ar yr holl gyfarpar brys, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac ar gael i'w defnyddio petai argyfwng gyda chlaf (llewygu)
- Roedd angen i'r deintyddion wella agweddau ar eu prosesau cadw cofnodion.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei gael.

Cyn yr arolygiad, roeddem wedi gwahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu sylwadau ynghylch y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cawsom 17 o holiaduron wedi'u llenwi, ac roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mae pawb yn wych, a phawb, yn ôl pob golwg, yn deall eu rolau. Mae'r gwasanaeth yn ardderchog, a hynny gan staff y dderbynfa, y deintyddion a'r hylenywyr”

“Mae'r practis bob amser yn lle hapus, proffesiynol ac ysgogol”

“Rydw i bob amser yn cael cynllun triniaeth, adolygiad cyn triniaeth, a gwybodaeth ar lafar yn ystod apwyntiadau”

“Rwy'n hapus iawn, iawn fel un o gleifion y practis, ac mae fy ngŵr a fy merch hefyd wedi cofrestru yn dilyn hyn”

Dywedodd yr holl gleifion a ddychwelodd holiaduron eu bod yn fodlon iawn ar y driniaeth yr oeddent wedi ei chael.

Gofal urddasol

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, barchus a phroffesiynol. Roedd y staff yn ymddangos yn dîm cyfeillgar, ac fe'u gwelwyd yn rhyngweithio'n gwrtais â chleifion.

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd holiadur eu bod wedi cael croeso gan y practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain am lefel y gwasanaeth yr oeddent wedi'i chael, ynghyd ag agwedd tîm cyfan y practis.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol i blant ac i oedolion, fel ei gilydd. Dim ond i blant yr oedd gwasanaethau deintyddol y GIG yn cael eu darparu am ddim. Roedd prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn gallu cael gwybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio. Roedd cyfleuster credyd ar gael i gleifion, yn amodol ar feini prawf penodol, a oedd yn eu

galluogi i dalu am driniaeth dros gyfnod hwy o amser. Roedd gan y practis gytundeb credyd defnyddwyr ar waith, a oedd yn ei alluogi i gynnig cyfleusterau credyd.

Roedd taflen wybodaeth am y practis ar gael yn y dderbynfa, y gallai cleifion ei darllen a mynd â hi adref, a oedd yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y practis.

Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn amserol. Nid oedd yr un claf a lenwodd holiadur wedi profi oedi cyn cael ei weld gan y deintydd. Dywedwyd wrthym y byddai'r derbynnydd yn dweud wrth gleifion am unrhyw oedi o ran eu hapwyntiad, ac yn cynnig amser arall iddynt os oedd hynny'n briodol.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion petai arnynt angen triniaeth ddeintyddol frys. Roedd y rhif ffôn i'w gael mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ar ddrws y practis, ar neges y peiriant ateb, ar y daflen wybodaeth am y practis, ac ar wefan y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod deunyddiau hybu iechyd i'w gweld yn ardal derbynfa'r practis, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid y geg eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol.

Gofal unigol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu defnyddio ei wasanaethau.

Roedd y practis wedi'i leoli yn ei adeilad ei hun, a hynny dros ddau lawr. Roedd angen dringo grisiau er mwyn cyrraedd mynedfa'r practis. Y tu mewn, roedd gan y practis ddwy ddeintyddfa ar y llawr daear (yr oedd un ohonynt yn segur), a dwy arall ar y llawr cyntaf. Roedd ramp ar gael i gleifion y gallai fod ganddynt anawsterau symudedd. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau'n cael eu trefnu yn y ddeintyddfa ar y llawr daear ar gyfer cleifion a allai gael anhawster i ddefnyddio'r grisiau i'r llawr cyntaf. Yn dilyn adborth gan gleifion, roedd canllaw wedi cael ei osod, er mwyn helpu cleifion i ddefnyddio'r grisiau.

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth i gleifion ynghylch sut y gallent fynegi pryder (cwyn), ac roedd systemau ar waith er mwyn i gleifion roi adborth.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd hon ar gael yn ardal y dderbynfa, yn ogystal ag ar wefan y practis. Roedd angen i weithdrefn gwyno'r practis gael ei diweddarau i gynnwys manylion am y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG, manylion cyswllt AGIC, ac amserlenni rheoleiddiol ar gyfer ymateb i gwynion gan gleifion preifat. Dylai'r wybodaeth ddiwygiedig hefyd gael ei chynnwys ar wefan y practis, er mwyn i gleifion allu ei gweld, a hynny'n unol â disgwyliad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y broses gywir ar gyfer cwynion gan gleifion y GIG, a'r amserlenni cywir ar gyfer ymateb i gwynion gan gleifion preifat. Rhaid i'r gweithdrefnau diwygiedig gael eu harddangos ar wefan y practis.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ffurflen adborth yn flynyddol i'w galluogi i roi adborth ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu cael. Nid oedd gan y practis ddull o alluogi cleifion i roi adborth ar sail ad hoc. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis roi system ar waith a fyddai'n galluogi cleifion i roi adborth yn barhaus, ac ym mha ffordd bynnag yr oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis broses ar waith ar gyfer delio â chwynion ffurfiol, yn ogystal â chwynion ar lafar, a bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n briodol. Roedd hyn yn galluogi'r practis i adolygu pryderon, i gymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, ac i adrodd yn ôl i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn dysgu o'r pryderon a oedd yn cael eu codi, er mwyn gwella'r practis a gwella profiad y claf.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i bobl.

Dangoswyd proses drylwyr ar gyfer golchi a sterileiddio offer deintyddol. Roedd hyn yn cael ei wneud mewn ystafell ddadheintio ddynodedig, fel yr argymhellir gan y canllawiau cenedlaethol, er mwyn lleihau nifer yr achosion o groeshalugi. Nodwyd gennym fod angen gwella rhai o'r gwiriadau sy'n ofynnol ar gyfarpar glanhau a sterileiddio.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn daclus, ac roeddent wedi cael eu dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso proses lanhau effeithiol. Gwelsom fod angen i'r llawr gael ei selio yn un o'r deintyddfeydd, er mwyn galluogi proses lanhau effeithiol, ac roedd angen tynnu'r carped mewn deintyddfa arall.

Nodwyd gennym fod angen gwella'r broses o wirio cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng gyda chlaf (llewygu), a rhoddwyd sicrwydd bod camau wedi cael eu cymryd ar unwaith i fynd i'r afael â'r gwelliant a oedd yn ofynnol.

Hefyd, nodwyd gennym fod angen ychydig o welliannau mewn perthynas ag agweddau ar brosesau cadw cofnodion y deintyddion, a bod angen iddynt gymryd camau i gydymffurfio'n llawn â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

Gofal diogel

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff a oedd yn gweithio yn y practis, yn ogystal â'r bobl a oedd yn ymweld ag ef.

Roedd adeilad y practis yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a hynny y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân ac yn daclus, a'u bod yn rhydd rhag peryglon. Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau, a oedd yn nodi peryglon posibl a chamau i leihau risgiau.

Roedd contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel nes iddo gael ei gasglu gan y cwmni dan gontract. Roedd gwastraff nad oedd yn beryglus (gwastraff cartref) yn cael ei gasglu trwy drefniadau â'r cyngor sir lleol. Roedd cyfarpar gwahanu amalgam wedi cael ei osod fel bod gronynnau o amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol yn gallu cael eu tynnu o'r dŵr gwastraff cyn cael eu gwaredu'n ddiogel.

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân ar gael yn y practis. Cawsom drafodaeth â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis ynghylch y ffaith bod angen i gynllun a dyluniad cyfredol yr ystafell ddadheintio gael eu hystyried ymhellach, er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion ym mholisi a dogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)¹. Nid oedd yr ystafell ddadheintio yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo ar wahân. Roedd cyfleusterau ar gael yn y deintyddfeydd a'r ystafell staff gerllaw er mwyn i'r staff olchi eu dwylo. Gwelsom fanylion cynllun a oedd wedi cael ei lunio yn 2011 ar gyfer ad-drefnu'r ystafell ddadheintio. Cawsom drafodaeth â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis ynghylch y cynllun, ac awgrymwyd gennym fod angen iddynt ailystyried eu hopsiynau, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag WHTM 01-05.

Roedd y cyfarpar dadheintio yn ymddangos mewn cyflwr da. Roedd un awtoclaf² yn cael ei ddefnyddio, ac roedd tystysgrif gosod/archwilio ar gael, a oedd yn dangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod rhai profion wedi cael eu gwneud i ddangos bod cyfarpar glanhau a dadheintio yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio, yn unol â'r argymhellion yn WHTM 01-05. Nid oedd y practis yn cynnal prawf treiddiad stêm ar y cyfarpar, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. Dywedasom wrth y practis am ein canfyddiadau, a chawsom sicrwydd ar lafar y byddai camau unioni yn cael eu cymryd. Darparodd rheolwr y practis gopi o'r archeb a oedd wedi cael ei wneud ar gyfer y cyfarpar perthnasol a oedd yn ofynnol i gynnal y profion.

Yr hyn sydd angen ei wella

¹ Mae [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Diwygiad 1\)](#) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau gan ddefnyddio stêm dirlawn pwysedd uchel.

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i gydymffurfio â'r canllawiau sydd wedi'u pennu yn nogfen ganllaw WHTM 01-05 (Diwygiad 1) mewn perthynas â:

- ***chwblhau profion a gweithdrefnau ar awtoclafau a chyfarpar golchi uwchsonig***
- ***cynnal cofnodion o brofion ar gyfarpar***

Arddangosodd y staff broses ddadheintio, a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddadheintio offer. Roedd offer yn cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio, er mwyn atal croeshalogi.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r trefniadau dadheintio yn ystod y 12 mis diwethaf. Argymhellwyd gennym y gallai'r practis ystyried defnyddio'r offeryn archwilio penodol sy'n gydnaws ag WHTM 01-05 yn y dyfodol, a hynny yn rhan o'i weithgarwch gwella ansawdd.

Aethom ati i edrych ar y cyfleusterau clinigol (deintyddfeydd) yn y practis. Roeddent yn lân ac yn daclus ac, ar y cyfan, roeddent wedi cael eu dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso prosesau glanhau effeithiol. Gwelsom fod angen tynnu'r carped yn un ardal o un ddeintyddfa, a gosod llawr priodol yn ei le.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintydd osod llawr priodol yn lle'r carped, yn unol â safonau WHTM 01-05

Gwelsom nad oedd y lloriau yn y deintyddfeydd wedi'u selio'n briodol rhwng y cabinetau a'r waliau ym mhob achos. Rhaid i'r deintydd sicrhau bod y lloriau'n cael eu selio, er mwyn atal dŵr, llwch a gweddillion rhag cronni yn y rhan heb ei selio o'r lloriau a ddangoswyd i'r deintydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y lloriau'n cael eu selio'n briodol rhwng y cabinetau a'r waliau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a pheth o'r cyfarpar wedi'u gwirio'n rheolaidd. Gwelsom fod un darn o gyfarpar, sef yr *ambu-bag*, yn frwnt. Dywedasom wrth berchennog y practis a rheolwr y practis am hyn, a chawsom sicrwydd ar lafar y byddai bag newydd yn cael ei archebu yn ei le. Dangosodd rheolwr y practis dystiolaeth o'r archeb ar gyfer *ambu-bag* newydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau rheolaidd ar y cyfarpar brys

Gwelsom fod y cyffuriau brys a pheth o'r cyfarpar yn cael eu storio mewn un lleoliad, ond nid mewn un cynhwysydd. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis storio'r holl gyfarpar a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng gyda chlaf mewn un man, fel bod modd cael gafael arnynt yn hawdd. Gallai'r practis hefyd ddymuno storio cyffuriau brys gyda'r siartiau llif priodol sy'n ofynnol, er mwyn eu hadnabod yn haws mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried storio'r holl gyffuriau a chyfarpar brys mewn un man, fel bod modd cael gafael arnynt yn hawdd petai argyfwng gyda chlaf

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod hyfforddiant y staff mewn perthynas ag adfywio cardio-pwlmonaidd yn gyfredol. Nid oedd tystysgrif ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad ar gyfer un aelod o'r staff, a chafodd y dystysgrif hon ei hanfon ymlaen i AGIC y diwrnod canlynol. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis gadw copïau o'r holl dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer adfywio cardio-pwlmonaidd yn y practis, er mwyn dangos bod yr holl aelodau o'r staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol ar adfywio cardio-pwlmonaidd o fewn yr amserlenni priodol.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer y defnydd diogel o gyfarpar radiograffig (pelydr-X), a hynny am fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am y defnydd diogel o gyfarpar pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y deintyddion a oedd yn defnyddio'r cyfarpar radiograffig wedi cael yr hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn dilyn y canllawiau a oedd wedi'u pennu gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn dangos hyn. Nid oedd un dystysgrif ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad ar gyfer un aelod o'r staff, a chafodd y dystysgrif hon ei hanfon ymlaen i AGIC y diwrnod canlynol. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis gadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant perthnasol, er mwyn dangos bod yr holl aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant sy'n berthnasol i gyfarpar a gweithdrefnau radiograffig.

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad o ansawdd delweddu pelydr-X. Argymhellwn y dylai'r practis gynnal archwiliad o'r fath, er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Dylai'r archwiliad hwn gael ei gynnal o leiaf bob blwyddyn.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a gwarchod lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg. Fe wnaethom argymhell i reolwr

y practis fod angen i'r gweithdrefnau gael eu diweddarau er mwyn bod yn benodol i'r practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion, a gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos hyn. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn disgwyl bod staff clinigol yn dilyn hyfforddiant ar ddiogelu, er mwyn parhau i fodloni gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Felly, rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod y staff hynny nad ydynt eisoes wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion, yn mynd ati i wneud hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis adolygu ei weithdrefnau amddiffyn ar gyfer plant ac oedolion, er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis deintyddol

Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC

Cadarnhaodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon a oedd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith gydag uwch-aelodau o staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Gofal Effeithiol

Dangosodd trafodaethau gyda pherchennog a rheolwr y practis ymrwymiad gan y tîm i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Darparodd rheolwr y practis enghreifftiau o'r archwiliadau clinigol yr oedd tîm y practis yn bwriadu eu cyflwyno, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Dylai'r practis fwrw ymlaen â'r trefniadau hyn, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, a bod cynlluniau gwella'n cael eu datblygu a'u monitro yn rhan o'r gweithgarwch gwella ansawdd. Rydym wedi nodi rhai meysydd i'w harchwilio uchod, sef cydymffurfiaeth ag WHTM 01-05, cofnodion cleifion ac ansawdd delweddau pelydr-X.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylai cynlluniau gwella gael eu datblygu a'u monitro fel y bo'n briodol

Aethom ati i ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion, er mwyn asesu ansawdd prosesau cadw cofnodion. Roedd y sampl hwn yn cynnwys cofnodion

a gwblhawyd gan y ddau deintydd a oedd yn gweithio'n bennaf yn y practis. Roedd ansawdd y nodiadau'n amrywio, a nodwyd gennym feysydd lle y dylid gwneud gwelliannau, sef:

- Nid oedd hanesion meddygol y cleifion bob amser wedi cael eu cydlofnodi gan y deintyddion. Byddai hyn yn dangos bod y deintyddion wedi ystyried cyflyrau meddygol y cleifion ac unrhyw feddyginiaethau yr oeddent yn eu cymryd wrth gynllunio eu triniaeth a'u gofal deintyddol.
- Nodwyd y defnydd o gofnodion generig yn nodiadau rhai o'r cleifion, a oedd yn golygu nad oedd y gofal a'r driniaeth wedi'u cofnodi'n unigol ar gyfer pob claf.
- O ran cynllunio triniaeth, nid oedd eglurhad o'r opsiynau a roddwyd i'r cleifion, na'r driniaeth a roddwyd, bob amser wedi cael eu dogfennu'n glir ar gyfer pob claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a lenwir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoleiddiol a safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion

Hefyd, nid oedd y rheswm dros gymryd Pelydrau-X na'u canfyddiadau deintyddol bob amser wedi'u cofnodi'n unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R) 2000.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd Pelydrau-X a'u canfyddiadau, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis yn eiddo i un deintydd, a oedd yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis a thîm cyfeillgar o staff. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau perthnasol ar waith, gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, yr oedd angen diweddarau rhai ohonynt.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o staff y practis, yn ogystal â'r tîm ehangach. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant perthnasol.

Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod copïau o dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Lle y nodwyd gennym feysydd i'w gwella, dangosodd rheolwr y practis barodrydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â hyn yn gyflym.

Dangosodd sgysiau gyda'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-aelodau o staff y practis, yn ogystal â'r tîm ehangach. Gwelsom hefyd fod staff yn glir ac yn hyddysg ynghylch eu gwahanol gyfrifoldebau.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, a oedd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd angen i rai o'r rhain gael eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis. Gwelsom fod system ar waith ar gyfer adolygu polisiau a gweithdrefnau yn y practis, fodd bynnag, nid oedd bob amser yn amlwg bod y broses hon yn cael ei dilyn. Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gallu dangos bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cyfathrebu'n effeithiol â'r holl aelodau o'r staff, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisiau a gweithdrefnau, er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac i ddangos ei fod yn gweithredu ei broses adolygu ei hun yn rheolaidd

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar bynciau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Cadarnhaodd staff hefyd eu bod wedi cael cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant. Er bod tystysgrifau hyfforddiant ar gael ar gyfer rhai o'r aelodau o'r staff, dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol,

er mwyn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar y pynciau hynny 'a argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, er mwyn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar y pynciau hynny 'a argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu effeithiol ymhlith tîm y practis. Cadarnhaodd staff fod cyfarfodydd byr yn cael eu cynnal bob dydd, a oedd yn sicrhau cyfathrebu da rhwng tîm y practis. Dywedwyd wrthym y byddai cofnodion yn cael eu cymryd a'u cofnodi'n ffurfiol ar achlysuron lle'r oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei rhannu yn bwysig. Roedd hyn er mwyn i'r staff nodi'r wybodaeth ac i sicrhau ei bod yn cael ei rhannu â'r rheiny nad oeddent yn bresennol.

Gwelsom fod staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Clinigol i ymarfer, a bod ganddynt yswiriant indemnio ar waith. Dywedwyd wrthym fod yr holl aelodau o'r staff wedi cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn eu diogelu nhw eu hunain a'r cleifion rhag haint. Roedd cofnodion ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff. Dywedwyd wrthym fod y practis yn aros am ddogfennaeth ar gyfer rhai o'r aelodau o'r staff a oedd wedi cael eu himiwneiddio'n ddiweddar, ond nad oeddent wedi gallu cael cadarnhad o hynny. Rhaid i'r practis gael y ddogfennaeth berthnasol a gwneud trefniadau iddi fod ar gael i'w harchwilio ar gais gan AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gael cadarnhad o imiwneiddiadau rhag Hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau o'r staff, a chadw'r cadarnhad hwnnw

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru gyda'r AGIC yn cael eu harddangos, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd un dystysgrif wedi cael ei llungopiö, ac roedd angen i'r dystysgrif wreiddiol gael ei harddangos yn lle'r llungopi hwnnw. Cytunodd y practis i arddangos y dystysgrif wreiddiol.

Gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis. .

5. Y Camau Nesaf

Yn sgil yr arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Nicola Taaffe @ West Grove yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema gydweithio â'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth, hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008³ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011⁴. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Adolygwyd gennym ddogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Nicola Taaffe @ West Grove

Dyddiad yr Arolygiad: 26 Medi 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y broses gywir ar gyfer cwynion gan gleifion y GIG, a'r amserlenni cywir ar gyfer ymateb i gwynion gan gleifion preifat. Rhaid i'r gweithdrefnau diwygiedig gael eu harddangos ar wefan y practis	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 15(4)	<ul style="list-style-type: none">Cwblhawyd ar 26/09/16Addaswyd y taflenni ar 27/09/16.	Cath Heron Debra James	26/09/16 27/09/16
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol					

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
9	<p><i>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i gydymffurfio â'r canllawiau sydd wedi'u pennu yn nogfen ganllaw WHTM 01-05 (Diwygiad 1) mewn perthynas â:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • chwblhau profion a gweithdrefnau ar awtoclafau a chyfarpar golchi uwchsonig • cynnal cofnodion o brofion ar gyfarpar <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1): Pennod 4, Pennod 12, Pennod 14 ac Atodiad 3</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(4), 14(5)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Treialu'r offer llaw newydd am wythnos arall (yn gorffen 04/11/16). Archebu sterileiddiwr ar 07/11/16 i'w ddefnyddio'n benodol ar gyfer sterileiddio offer llaw. • Prynwyd pecyn profi Helix ar 28/09/16, i'w ddefnyddio pan fydd gennym y sterileiddiwr offer llaw newydd. • Prynwyd stribedi profi Brown ar 18/10/16, a chwblhawyd y prawf cyntaf ar 20/10/16. Bydd y profion hyn yn parhau unwaith y mis, a bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi ar y daflen gofnodi. • Mae profion bath uwchsonig (prawf ffoil) yn cael eu cynnal bob tri mis. Cafodd y prawf diwethaf ei gwblhau ar 26/08/16, a 	<p>Nicola Taaffe Cath Heron Debra James</p>	<p>04/11/16 07/11/16</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>hynny'n fewnol. Cafodd y manylion eu cofnodi yn y cofnodlyfr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd prawf annibynnol blynyddol, ynghyd â phrawf dilysu a phrawf PAT, eu cwblhau ddiwethaf ar y glanhawr uwchsonig ar 12/02/16. Mae'r profion nesaf i'w cwblhau ar 04/02/17 • Mae profion protein wythnosol yn cael eu cynnal ar y bath uwchsonig. Cafodd y prawf diwethaf ei gynnal ar 28/10/16, a chafodd y wybodaeth ei chofnodi yn y cofnodlyfr. 		
10	<p>Dylai'r deintydd osod llawr priodol yn lle'r carped, yn unol â safonau WHTM 01-05</p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1):</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(6)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod llawr priodol yn lle'r carped. 	Nicola Taaffe	24/11/16

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Pennod 6, para 6.46 – 6.49</i>				
10	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y lloriau'n cael eu selio'n briodol rhwng y cabinetau a'r waliau</p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1): Pennod 6, para 6.46 -6.49</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(6)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Selio'r ystafelloedd dan sylw pan nad yw'r deintyddfeydd yn cael eu defnyddio. 	Debra James	24/11/16
11	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau rheolaidd ar y cyfarpar brys</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer ymarfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(2)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cyfarpar newydd wedi'i archebu • Cafwyd cyfarpar newydd ar 02/10/16. • Bydd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal bob dydd Llun. Bydd gwybodaeth yn cael ei chofnodi ar daflen gofnodi wythnosol, a'i dyddio. • Cadarnhau dyddiadau hambyrddau a gwirio cyfarpar brys hefyd. 	Nicola Taaffe Cath Heron	27/09/16

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Dylai'r practis ystyried storio'r holl gyffuriau a chyfarpar brys mewn un man, fel bod modd cael gafael arnynt yn hawdd petai argyfwng gyda chlaf	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14(2)	<ul style="list-style-type: none"> Prynwyd bag newydd er mwyn dal cyfarpar brys. 	Nicola Taaffe Cath Heron Debra James	27/09/16
12	Dylai'r practis adolygu ei weithdrefnau amddiffyn ar gyfer plant ac oedolion, er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis deintyddol <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Penodau 4, 8</i>	Safonau Gofal ac Iechyd Ebrill 2015 2.7	<ul style="list-style-type: none"> Cafodd y polisi amddiffyn plant ei ddiweddarau ar 3/10/2016. Yr arweinydd ar gyfer amddiffyn plant yw Nicola Taaffe. Mae manylion cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Caerdydd wedi cael eu hychwanegu. 	Debra James	03/10/16
12	Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC	Safonau Gofal ac Iechyd Ebrill 2015 2.7	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Polisi ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed yn cael ei ddiweddarau, a bydd wedi'i gwblhau erbyn dydd Llun 14 Tachwedd. 	Debra James	14/11/16

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Penodau 4, 8</i>		<ul style="list-style-type: none"> Bydd manylion cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Caerdydd yn cael eu hychwanegu. 		
12	Dylai'r practis fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylai cynlluniau gwella gael eu datblygu a'u monitro fel y bo'n briodol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14(2)	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltwyd â Deoniaeth Cymru mewn perthynas ag archwiliadau clinigol. Bydd ffurflenni cofrestru ar gyfer y cyswllt dadheintio a rhoi'r gorau i smygu yn cael eu hanfon, er mwyn sefydlu cyfleuster ar-lein i lenwi'r rhain. Archwiliadau rhoi'r gorau i 	Cath Heron Debra James Debra James	03-11-2016 Mawrth

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>smygu i gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliad o Gydymffurfiaeth ag WHTM-0105 i gael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2017 • O fis Ionawr ymlaen, archwiliadau mewnol i'w cwblhau bob chwe mis mewn perthynas â golchi dwylo • Archwiliadau iechyd a diogelwch bob chwe mis – i'w cynnal 'nawr • Archwiliadau o gofnodion clinigol bob chwe mis • Archwiliadau rheoli haint bob chwe mis – i'w cynnal 'nawr • Rydym yn bwriadu cwblhau'r archwiliadau gofynnol o leiaf bob dau fis yn y dyfodol. 	<p>Debra James</p> <p>Debra James/Cath Heron</p> <p>Debra James/Cath Heron</p> <p>Nicola Taaffe</p> <p>Debra James</p> <p>Debra James</p>	<p>2017</p> <p>Mehefin 2017</p> <p>15-01-2017</p> <p>1-3-2017</p> <p>01-02-2017</p> <p>3-2-2017</p> <p>Ionawr 2017</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
13	<p>Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a lenwir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoleiddiol a safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(1)(b)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ar y pedwerydd diwrnod o bob mis, gwirio a yw cofnodion y mis blaenorol yn gywir. 	<p>Nicola Taaffe Debra James</p>	<p>27/09/16</p>
13	<p><i>Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd Pelydrau-X a'u canfyddiadau, fel sy'n ofynnol gan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</i></p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1</i></p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</p> <p>Rheoliad 6</p>	<ul style="list-style-type: none"> Wedi ei weithredu a'i gwblhau ar 27/09/16. 	<p>Nicola Taaffe</p>	<p>27/09/16</p>

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
14	<p>Dylai'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau, er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis ac i ddangos ei fod yn gweithredu ei broses adolygu ei hun yn rheolaidd</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015</p> <p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu gweddill y polisïau erbyn 04/11/16 • Mae dyddiadau wedi'u pennu yn y dyddiadur fel bod pob aelod o'r staff wedi darllen yr holl bolisïau erbyn diwedd mis Chwefror 2017 • Dyddiad adolygu newydd flwyddyn ar ôl y dyddiadau adolygu cychwynnol, gan ddechrau ym mis Mehefin 2017. 	<p>Nicola Taaffe Debra James</p>	<p>04/11/16</p> <p>Chwefror 2017</p> <p>Mehefin 2017</p>
15	<p>Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copiâu o dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, er mwyn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar y pynciau hynny 'a argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol,</i></p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(2)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi ei weithredu a'i gwblhau erbyn 11/10/16. 	<p>Nicola Taaffe Debra James</p>	<p>11/10/16</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Safon 7</i>				
15	Rhaid i'r practis gael cadarnhad o imiwneiddiadau rhag Hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau o'r staff, a chadw'r cadarnhad hwnnw <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.4.2</i>	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14(2)	<ul style="list-style-type: none"> • Yn aros am gadarnhad o imiwneiddiad rhag Hepatitis B ar gyfer un aelod o'r staff. • Sicrhau bod pob cyflogai newydd yn cael ei imiwneiddio. 	Nicola Taaffe Cath Heron Debra James	Parhaus

Cynrychiolydd y Practis: Nicola Taaffe

Enw (llythrennau bras): Nicola Taaffe

Teitl: Prif Ddeintydd y Practis

Dyddiad: 3 Tachwedd 2016